Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ar ddydd Mercher, Mawrth 28ain, 2007 am 7.30 p.m.

Presennol: Dirprwy Faer Cyng Richard Wallace, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Dawn Wallace, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Colin Jenkins, Cyng Edward Thomas, Cyng Roy Davies, Cyng Fran Murphy.
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr. Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr. Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Cyng Ros Bellamy, Cyng Pam Steane Price, Cynghorydd Sir Ieuan Jones. Mynychodd y Cyng Hugh Towns ail hanner y cyfarfod.

Materion yr Heddlu : Cyflwynodd PC Howie Davies Robert Smith, y Swyddog Cymorth Cymunedol sydd newydd ei benodi. Adroddodd y Cyng Charlotte Leadbeater fod pobl o amgylch y Dref wedi sylwi ar ei bresenoldeb, a wnaeth longyfarch y swyddogion cymorth ar eu gwaith. Dywedodd PC Davies o ganlyniad i waith patrol gan y Swyddogion Cymorth ar nos Sadwrn fod unigolyn wedi'i arestio oherwydd ei fod yn meddu ar sylwedd anghyfreithlon. Dywedodd hefyd y byddai unrhyw un sy'n feddw mewn man cyhoeddus, yn cynnwys parc Penlan yn cael ei arestio. Mae'n fwriad gan yr heddlu i gynnal "syrgery" yn y gymuned yn y dyfodol agos. Cafwyd cwyn unwaith eto gan y Cyng Richard Wallace am ba mor araf yw'r ymateb a geir o'r ganolfan alwadau yn ymdrin â rhwystr yn Adeiladau'r Banc.

Cof 222/ Mawrth / 07 Cofnodion Blaenorol

Cymeradwywyd Cofnodion o'r Cyfarfod Llawn a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir, ar ddydd Mercher, 28ain Chwefror, 2007 fel rhai cywir wedi cynnwys y newidiadau canlynol :

Cof 201/ Chwef / 07 Gohiriwyd adroddiad yr Is-grŵp Tân Gwyllt tan y cyfarfod nesaf.
Cof 205 / Chwef / 07, Gohiriwyd yr eitem *Agenda* ar Ddiweddaru'r Wefan tan y cyfarfod nesaf.
Cynigiwyd hyn gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd Cofnodion o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir, ar ddydd Mercher, 14eg Mawrth fel cofnod cywir, gan gynnwys yr ychwanegiad canlynol:
Cof 215 / Mawrth / 07 yn dilyn y cymal i sicrhau bod cyfanrwydd pensaernïol Neuadd y Farchnad, (ychwanegu)- yn ogystal â bod elfen o fynediad i'r cyhoedd yn cael ei gadw.
Cynigiwyd gan y Cyng Roy Davies ac eiliwyd gan y Cyng Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd Cofnodion o Gyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ar ddydd Mercher, Mawrth 14eg, 2007 fel rhai cywir.
Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Cof 223/ Mawrth / 07 Doedd yna ddim materion yn codi o gyfarfodydd blaenorol

Cof 224 / Mawrth / 07 Adroddiad y Cynghorydd Sir.

Doedd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones ddim yn gallu bod yn bresennol er mwyn rhoi ei adroddiad misol.

Cof 225 / Mawrth / 07 Materion Ariannol.

1 Anfonebau i'w Talu

Geraint Price (deunyddiau arddangos yr arddangosfa Tân Gwyllt) £ 129.59
Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins, eiliwyd gan y Cyng Edward Thomas
WCVA (Cyflogai Mawrth 07) £ 159.76
WCVA (Gweinyddiaeth Mawrth 07) £ 34.66
Cynigiwyd gan y Cyng Edward Thomas, eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins
Mr Des Davies (Allwedd) £ 2.25
Cynigiwyd gan y Cyng Edward Thomas, eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater
BT (costau ffôn y swyddfa) £ 64.66
Cynigiwyd gan y Cyng Edward Thomas, eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins
Dewis (cyfieithu cofnodion) £ 207.90
Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn, eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace.
Swm sydd heb ei dalu i D. Siggery (Neuadd y Sir) £ 645.03
Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn, eiliwyd gan y Cyng Edward Thomas
Wyatt & Watts (peirianwyr strwythurol – Neuadd y Sir) £ 111.60
Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn, eiliwyd gan y Cyng Edward Thomas
Regan Norris (gwasanaethau proffesiynol taliad olaf) £ 84.13
Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn, eiliwyd gan y Cyng Edward Thomas

2. Materion Ariannol Eraill
Trosglwyddo arian. Argymhellwyd gan y Swyddog Cyllid, gan fod y rhan fwyaf o'r arian wedi'i dalu am atgyweirio Neuadd y Sir, y gellir trosglwyddo arian o'r cyfrif Cyfredol i'r cyfrif cynilo. Cynigiodd y Cyng Colin Jenkins y dylid trosglwyddo £35,000. Eiliwyd hyn gan y Cyng Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

3. Rent Neuadd y Sir.
Adroddodd y Cyng Ieuan Gwyn fod y codisil les mewn perthynas â'r newid mewn rhent i Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cambria yn golygu y byddai'r incwm o rent yn codi o £11,167 i £12,563 y flwyddyn gan ddechrau ar Ebrill 1af, 2007. Cynigiodd y Cyng Ieuan Gwyn y dylid derbyn y newidiadau hyn mewn rhent. Eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.
4. Offer Swyddfa.
i) Dyfynbris gan Mr Dilwyn Thomas am £750 ag eithrio TAW am osod unedau cegin a chynigiwyd y dylid derbyn hyn gan y Cyng Ieuan Gwyn. Eiliwyd gan y Cyng Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.
ii) Cynigiodd y Cyng Colin Jenkins y dylid prynu desg ar gyfer y Swyddfa hyd at bris o £179 + taw o Advantage neu am £100 gan Cambria os yw eu cynnig o ddesg yn addas, eiliwyd hyn gan y Cyng Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.
iii) Cluniadur i Glerc y Dref. Cyflwynodd y Clerc adroddiad yn amlygu'r angen am gluniadur. Cynigiodd y Cyng Colin Jenkins y dylid caniatáu i'r Clerc brynu cluniadur sef yr un y mae'n dymuno ar gost o uchafswm o £700. Eiliwyd gan y Cyng Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

5. Llandeilo yn ei Blodau
   Adroddodd y Cyng Colin Jenkins fod y Clwb Garddio yn awyddus i gymryd cyfrifoldeb dros redeg y prosiect hwn. Gan gychwyn y Gwanwyn hwn.
   Cynigiodd y Cyng Charlotte Leadbeater fod y Cyngor yn rhoi caniatâd i'r Clwb Garddio i ymgymryd â'r prosiect hwn gyda chroeso. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.
   Cynigiodd y Cyng Colin Jenkins y dylid anfon llythyr ar y Gymdeithas Gymunedol yn gofyn iddynt ddychwelyd y llyfrau siec priodol i'r Cyngor er mwyn medru gwneud rhoddion i'r Clwb Garddio yn y dyfodol. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 226 / Mawrth / 07 Cludiant a Goleuadau

1. Cyfarfod ar y cyd mewn perthynas â thaliadau Parcio Ceir. Adroddodd y Cyng Richard Wallace ar y cyfarfod a fynychwyd hefyd gan y Cyng Dawn Wallace. Roedd yna gynrychiolaeth o GT Rhydaman a Siambr Fasnach Llanymddyfri yn y cyfarfod. Cynigiwyd gan y Cyng Dawn Wallace y dylid anfon llythyr at GSC yn gofyn am bris parcio car o 20c am 2 awr, yn lle'r tâl presennol o 20c am 30 munud, oedd yn amser hollol amhriodol o amser. Eiliwyd hyn gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.
2. Mannau Parcio i'r Anabl y tu allan i'r Neuadd Ddinesig.
   Adroddodd y Cyng Colin Jenkins ar y cyfarfod a gynhaliwyd gyda'r Rhingyll Neil Jones, Mr John McEvoy, Rheolwr Traffig CSC a chynrychiolwyr o Ymddiriedolaeth y Neuadd Ddinesig. Mae'n ymddangos fod yna gymysgwch wedi digwydd rhwng yr Adran Draffig, yr Heddlu a'r Adran Gynllunio ynglŷn â gwrthwynebiadau i'r cynnig. Roedd yna faterion i'w trafod ynglŷn â lleoliad y mannau parcio i'r anabl y tu allan i'r Neuadd, ond bydd y Rhingyll Neil Jones yn cwrdd â Mr John McEvoy i drafod lle bydd y Mannau Llwytho/Dadlwytho ar hyd blaen y Neuadd Ddinesig, gan roi lle i 3 cerbyd gael sefyll, cyn symud i barcio yn y prif faes parcio. Gofynnodd y Cyng Edward Thomas a fyddai'n bosib i'r Cyngor bwyso i gael y mannau parcio i'r anabl yn y rhan sydd agosaf at y Neuadd yn y prif faes parcio.

Cof 227 / Mawrth / 07 Adroddiad y Maer

Roedd y Maer Cyng Hugh Towns wedi darparu rhestr ysgrifenedig o'r holl gyfarfodydd a digwyddiadau yr oedd wedi'u mynychu ar ran y Cyngor dros y mis aeth heibio. Bydd y rhestr hon yn cael ei rhoi ar wefan y Cyngor.

Cof 228 / Mawrth / 07 Mynediad i Neuadd y Sir

Gofynnodd y Cyng Colin Jenkins i bob Cynghorydd gael allwedd i'r drws blaen.
Dywedodd y Cyng Ieuan Gwyn fod yna gyfyngiadau a ddangosir ar y les er mwyn diogelu'r rheini sy'n lesio'r adeilad.
Yn ystod y drafodaeth, dywedodd y Cyng Ieuan Gwyn fod yna rai camgymeriadau yn y les a gofynnodd am ganiatâd i gywiro'r rhain trwy gysylltu â chyfreithwyr y Cyngor.
Cynigiodd y Cyng Edward Thomas y dylid rhoi caniatâd i'r Cyng Gwyn. Eiliwyd gan y Cyng Hugh Towns. Roedd pawb o blaid.
Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns fod y Maer, Dirprwy Faer, y Swyddog Technegol a'r Clerc yn derbyn Allweddi. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Charlotte Leadbeater.
Cafwyd diwygiad gan y Cyng Ieuan Gwyn yn ogystal â'r pedwar a enwyd y gallai allweddi hefyd gael eu rhoi i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Chadeirydd Cynllunio.
Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Colin Jenkins.
Cariwyd y cynnig gyda 6 phleidlais i 2 bleidlais.

Cof 229 / Mawrth / 07 Y Prosiect Treftadaeth.
Mae'r Cyng Roy Davies a'r Cyng Hugh Towns wedi cwrdd â Gwilym Hughes o Cambria i drafod Lansio'r Llwybr Treftadaeth a Neuadd y Sir ar y Cyd. Mae'r dyddiadau ar gyfer y lansiad wedi'u cadarnhau ar gyfer dydd Gwener, 20fed Ebrill rhwng 7-9 pm a dydd Sadwrn, Ebrill 21ain rhwng 10-3.30 pm.
Cynhelir y lansiad swyddogol ar y nos Wener ar gyfer pwysigion Dinesig a gwesteion a wahoddir, ynghyd â lluniaeth ysgafn. Cynhelir diwrnod agored ar y dydd Sadwrn gyda chyfle i ymwelwyr gael eu tywys ar hyd y Llwybr Treftadaeth yn ogystal ag areithiau yn Neuadd y Sir.
Cynigiwyd gan y Maer, Cyng Hugh Towns, y dylai'r Cyngor dalu am luniaeth i hyd at swm o £500. Eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Cof 230/ Mawrth /07 Prosiect Neuadd y Sir
Adroddodd y Cyng Ieuan Gwyn fod yr adeiladwr fwy neu lai wedi cwblhau'r gwaith sydd ar y rhestr. Bydd yr elfen o gadw yn parhau hyd nes y bydd pob parti yn fodlon fod y prosiect wedi'i gwblhau.

Cof 231 / Mawrth /07 Adroddiad yr Is-grŵp Iechyd.
Nid oedd gan y Cyng Charlotte Leadbeater unrhyw beth i sôn amdano.

Cof 232 / Mawrth/ 07 Prosiect yr Ardd Gymunedol.
Ymddiheurodd y Cyng Fran Murphy ar ran ei hunan a'r Cyng Pam Steane Price am fethu â mynychu'r cwrs a gynhaliwyd gan FCFCG. Roedd yr is-grŵp wedi cyflwyno datganiad o ddiddordeb i Eleri Davies o Brosiect Tywi Afon yr Oesoedd. Roedd yr is-grŵp wedi cwrdd â'r Cyng Richard Wallace a'r Swyddog Technegol. O ganlyniad i'r cyfarfod derbyniwyd dyfynbris ar lafar o'r Forge am £7000 i wneud gât newydd yn mynd o Heol Cilgant i mewn i'r Ardd. Mae angen arwyddion ar gyfer y gwirfoddolwyr er mwyn iddynt fod yn ymwybodol fod ganddynt eu hyswiriant personol i weithio yn yr Ardd. Nodwyd y pwyntiau hyn.
Cof 233 / Mawrth / 07 Diweddaru'r Wefan
Cynigiodd y Cyng Fran Murphy ei bod yn barod i weithio ar y wefan gyda'r Clerc. Diolchodd y Cyng Richard Wallace iddi am wirfoddoli.
Cof 234 / Mawrth / 07 Adroddiad yr Is-grŵp Tân Gwyllt.
Dosbarthwyd adroddiad gan y Cyng Colin Jenkins ar y cyfarfod diwethaf o'r is-grŵp. Cytunwyd ar atodlen newydd ar gyfer y gweithdrefnau i'w dilyn wrth drefnu arddangosfeydd yn y dyfodol. Mae yna 9 taliad yn ddyledus o hyd o'r hysbysebion rhaglen, a byddant yn ceisio casglu'r arian hwn cyn gynted â phosib.

Cynigiodd y Cyng Ieuan Gwyn y dylid Gohirio Rheol Sefydlog Rhif 6 am 15 munud er mwyn gallu cwblhau busnes y Cyngor.

Cof 235 / Mawrth / 07 Adroddiad y Swyddog Technegol.
Mae tendrau ar gyfer rhaglen cynnal a chadw'r Llwybrau Troed yn 2007-8 wedi'u derbyn. Maent fel a ganlyn :

Dinefwr Landscaping	£1510 (ag eithrio TAW)
Hugh Gwynne	£ 990 (ag eithrio TAW)

Cynigiodd y Maer, Cyng Hugh Towns y dylid derbyn y ffigwr isaf. Eiliwyd gan y Cyng Fran Murphy. Roedd pawb o blaid rhoi'r cytundeb i Mr Hugh Gwynne.

Cof 236 / Mawrth /07 Gohebiaeth i'w hystyried

1. Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gofyn iddynt gwblhau'r hunan asesiad mewn perthynas â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor. Bydd y Cyng Roy Davies yn cwrdd i drafod gyda'r Clerc wedi'r lansiad o'r Llwybr Treftadaeth tuag at ddiwedd Ebrill.
2. Gwahoddiad i Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Cynigiodd y Maer y dylid rhoi'r gwahoddiad i'r Swyddog Cyllid. Eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins.
3. E bost gan y Cyng Ros Bellamy Parthed – Adroddiad ROW. Rhoddwyd hwn i Is-grŵp yr Ardd i weithredu arno.
4. CSC – Swydd Wag ar y Panel Penodiadau. Nodwyd.
5. Bwrdd Iechyd Lleol – dyddiad y cyfarfod nesaf o'r panel. Rhoi gwybod i'r Cyng Charlotte Leadbeater.

Cof 237 / Mawrth/ 07 Gohebiaeth er gwybodaeth

1. Manylion Rhaglen Cynnal a Chadw Llwybrau Troed CSC.

Cof 238 / Mawrth/ 07 Unrhyw fater arall sydd oherwydd amgylchiadau arbennig ym marn y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Cynigiodd y Cyng Ieuan Gwyn y dylid cynnal y Cyfarfod Blynyddol ar Fai'r 25ain yn Neuadd y Sir am 6.45 pm ac y cynhelir y CBC yn Neuadd y Sir ar ddydd Mercher Mai'r 30ain am 7.30pm.
Eiliwyd hyn gan y Cyng Hugh Towns. Roedd pawb o blaid.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.40 p.m.